

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC-07-00(p.4)

Dyddiad:	25 Hydref 2000
Lleoliad:	Ystafell Gynadledda X, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
Teitl:	Menter Gymunedol EQUAL

Diben

1. Gyda'r papur hwn, amgaeir dogfen ddrafft Rhaglen Menter Gymunedol EQUAL Prydain Fawr, sy'n cael ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor er gwybodaeth (Atodiad 1). Cyflwynwyd y Rhaglen Menter Gymunedol gerbron y Comisiwn Ewropeaidd ar 15 Medi 2000. Nid oes angen i'r Pwyllgor weithredu ar hyn o bryd.

Cefndir

2. Un o bedair Menter Gymunedol Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2000 – 2006 yw EQUAL. Yr Adran Addysg a Chyflogaeth sy'n arwain datblygiad EQUAL ar draws Prydain gyfan, mewn ymgynghoriad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweithrediaeth yr Alban. Nod cyffredinol EQUAL yw hyrwyddo ffyrdd newydd o frwydro yn erbyn pob math o wahaniaethu ac anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â'r farchnad lafur, drwy gydweithrediad traws-wladol. Mae gan y fenter bwyslais cryf ar ledaenu gwybodaeth a dylanwadu ar y broses o lunio polisi. Bydd ganddi ffocws arbennig ar faterion cydraddoldeb sy'n ymwneud â gender; anabled; hil neu darddiad ethnig; crefydd neu gred; oed a chyfeiriadaeth rywiol. Bydd y fenter hefyd yn helpu'r rhai sy'n ceisio lloches i gael eu hintegreiddio yn gymdeithasol ac yn alwedigaethol.

Ymgynghoriad

3. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang ynglŷn â chwmpas y fenter EQUAL yn ystod mis Gorffennaf a dechrau mis Awst. Rheolwyd yr ymgynghoriad yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol, ar ran yr Adran Addysg a Hyfforddiant, ac anfonwyd holiaduron i dros 100 o sefydliadau ledled Cymru. Yn ogystal â hyn, mae Grp Cyswllt EQUAL (GCE) anffurfiol wedi ei sefydlu yng Nghymru. Ei rôl yw cynghori ar ddatblygu a gweithredu'r fenter yng Nghymru, ac fe gyfarfu am y tro cyntaf ar 10 Awst. Amlinellir aelodaeth GCE yn Atodiad 2.

Cwmpas Rhaglen Prydain Fawr

4. Rhoddwyd cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol a Gweithrediaeth yr Alban gyflwyno sylwadau ar fersiynau cynharach o'r Rhaglen Menter Gymunedol ddrafft.

5. Y pwyntiau allweddol i'r Pwyllgor eu nodi yw:

- Diben Cyffredinol y Fenter – yw profi ffyrdd newydd o gyflwyno blaenoriaethau polisi ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y farchnad lafur, o fewn cyd-destun y Strategaeth Cyflogaeth Ewropeaidd. Bydd y Fenter yn gymorth i fwydo datblygiad polisi yn y dyfodol, a bydd yn hybu rhannu arferion da rhwng yr Aelod-Wladwriaethau drwy gydweithredu traws-wladol. Y bwriad yw cyfuno arloesi llwyddiannus i mewn i raglenni cyffredinol y Cronfeydd Strwythurol;
- Y Grwpiau Targed (Pennod 1.1) – Bydd pwyslais arbennig ar fynd i'r afael â gwahaniaethu a seilir ar ryw, tarddiad hiliol neu ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadaeth rywiol. Bydd y fenter hefyd yn cynnwys gweithredu ar gyfer helpu'r rhai sy'n ceisio lloches gael eu hintegreiddio'n gymdeithasol ac yn alwedigaethol;
- Gweithio Thematig (Pennod 2.3) – Mae'r fenter wedi ei strwythuro o gwmpas 9 maes thematig. Diffinnir wyth o'r rhain yng nghyd-destun pedwar piler y Strategaeth Gyflogaeth Ewropeaidd. Mae'r rhain yn cynnwys ei gwneud yn haws bod yn rhan o'r farchnad lafur; brwydro yn derbyn hiliaeth a senoffobia; agor y broses o greu busnes i bawb; cryfhau'r economi cymdeithasol; hyrwyddo dysgu gydol oes ac arferion gweithio cynhwysol; cynorthwyo hyblygrwydd cwmnïau, lleihau'r bwlch rhwng gender a chynorthwyo dad-arwahanu yn y gweithle. Eir i'r afael â Chyfle Cyfartal hefyd fel mater traws-doriadol. Mae'r nawfed thema yn mynd i'r afael ag anghenion penodol y rhai sy'n ceisio lloches;
- Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar y Blaenoriaethau (Penodau 2.3 a 3.3) – Mae'r Rhaglen Menter Gymunedol hon yn nodi cyd-destun polisi y DU a'r cyfle ar gyfer gwaith pellach/arloesol o dan EQUAL, wedi eu rhestru yn ôl thema. Wedi ymgynghori â'r is-adrannau polisi perthnasol o fewn y Cynulliad, ynghyd â Grp Cyswllt EQUAL, cafwyd cytundeb fod y blaenoriaethau a enwir yn yr adran hon yn ein galluogi i fod yn ddigon hyblyg i ymdrin â'r materion sydd o bwys penodol wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu yn y farchnad lafur ac anfantais gymdeithasol yng Nghymru;
- Partneriaethau Datblygu (Pennod 3.4.1) – Caiff prosiectau EQUAL eu paratoi a'u gweithredu gan Bartneriaethau Datblygu. Rhaid i bob partneriaeth gael o leiaf un partner traws-wladol. Gall partneriaethau gael eu cyfansoddi ar un ai sail ddaearyddol neu sail sector (thematig). Bydd y pwyslais ar ddatblygu ffyrdd arloesol o gyflwyno polisiau cyflogaeth sy'n mynd i'r afael â materion anghydraddoldeb neu wahaniaethu, yn hytrach na'u cyflwyno yn y brif ffrwd: mae rhaglenni'r cronfeydd strwythurol yn darparu ar gyfer hyn;
- Fframwaith ar gyfer Rhoi EQUAL ar Waith (Pennod 4.1) – Mae'r bennod hon yn disgrifio'r broses ar gyfer rhoi EQUAL ar waith ym Mhrydain. Cynigir y bydd y Cynulliad Cenedlaethol a Gweithrediaeth yr Alban yn cydweithio fel awdurdodau rheoli ar gyfer gweithredu'r rhaglen. Bydd Pwyllgor Rheoli ar gyfer Cymru yn goruchwyllo'r ffordd y mae'n cael ei weithredu yng Nghymru, gan adrodd i Bwyllgor Monitro Prydain Fawr. Cytunwyd hefyd y bydd Cynllun

Gweithredu ar wahân ar gyfer Cymru, a gynorthwyr gan ddyraniad adnoddau sydd wedi'i glustnodi. Cynhelir trafodaethau ar hyn o bryd gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth ynghylch yr union ddyraniad. Bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gweinyddu'r rhaglen yng Nghymru, ond bydd rhai gweithgareddau (er enghraifft rhwydweithio thematig) yn cael eu trefnu ar lefel Prydain Fawr gyfan;

- Amserlen ar gyfer Gweithredu EQUAL – Cyflwynwyd y Rhaglen Menter Gymunedol ddrafft i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 15 Medi. Disgwylir i'r negodiadau gyda'r Comisiwn gael eu cwblhau erbyn mis Chwefror 2001, a disgwylir i'r Rhaglen gychwyn yn fuan wedi hynny.

Y Camau Nesaf

4. Yn dilyn ymgynghoriad â Grp Cyswllt EQUAL a'r cyrff sy'n bartner iddo, caiff drafft cyntaf o Raglen Gweithredu Cymru ei gyflwyno i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal i'w ystyried ym mis Rhagfyr. Yn dilyn hynny, caiff Rhaglen Gweithredu Cymru ei chyflwyno i Bwyllgor Monitro EQUAL Prydain Fawr i'w gymeradwyo'n ffurfiol yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

Yr Is-adran Materion Ewropeaidd

Hydref 2000